# IS-BWYLLGOR DEDDFAU TRWYDDEDU A GAMBLO
**(trwy Microsoft Teams)**

**Yn bresennol:** **7 Chwefror 2022**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Y Cynghorydd S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | Y Cynghorydd D Whitelock |
| **Cynghorwyr:** | N J E Davies |
| **Dirprwy:** | Y Cyng. J Miller (gadawodd y cyfarfod ar ôl y Datganiadau o Fuddiannau) |
| **Swyddogion yn bresennol:** | N Chapple, M Shaw a J Woodman-Ralph |

---

1. **Croeso a galw'r rhestr**

Croesawodd y Cyng. Paddison bawb i'r cyfarfod a galwyd yr enwau.

2. **Datganiadau o fuddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **Cais i amrywio Trwydded Mangre - Kitty O'Sheas**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cais canlynol a gymeradwywyd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

| | |
|---|---|
| Enw'r fangre: | Kitty O'Shea's |
| Cyfeiriad y fangre: | 6 Stryd James, Pontardawe SA8 4LR |
| Enw'r Ymgeisydd: | Mr Peter William Rees a Mrs Eileen Rees |
| Cyfeiriad yr ymgeisydd: | 6 Stryd James, Pontardawe SA8 4LR |
| Enw'r Goruchwyliwr Mangre Dynodedig: | Mrs Eileen Rees |

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r cais i amrywio Trwydded Mangre ar gyfer Kitty O'Shea's, 6 Stryd James, Pontardawe SA8 4LR, a wnaed gan Mr Peter Williams Rees a Mrs Eileen Rees, gyda'r amodau canlynol.

- Ni ddylid defnyddio'r ardd gwrw ar ôl 23:30 ac eithrio er mwyn cael mynediad at yr ardal smygu ddynodedig a'i defnyddio.
- Ar ôl 23:30, gall uchafswm o 4 cwsmer yn unig fod yn yr ardal smygu ddynodedig.
- Ni ddylid mynd ag unrhyw ddiodydd i'r ardal allanol ar ôl 23:30.
- Rhaid i oruchwyliwr drws SIA fod yn bresennol a rhaid iddo reoli'r drws er mwyn galluogi pobl i fynd i'r ardal smygu ac oddi yno o 23:30 tan yr amser cau.
- Rhaid rhoi arwyddion clir yn yr ardal smygu ddynodedig sy'n gofyn i gwsmeriaid fod yn dawel er mwyn lleihau'r effaith ar breswylwyr.
- Rhaid gosod mecanwaith sy'n cau'r drws yn awtomatig ar y drws sy'n arwain at yr ardal smygu ddynodedig.

## 4. <u>Eitemau brys</u>

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.